DATGANIAD NEWYDDION

Cyhoeddwyd gan
Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250

Dyddiad 26 Ionawr 2005

ARGYMHELLION TERFYNOL AR GYFER RHANBARTHAU ETHOLIADOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae'r Comisiwn yn cynnig peidio gwneud unrhyw newidiadau i'w argymhellion ar gyfer Rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn cadarnhau ei argymhellion dros dro fel ei argymhellion terfynol.

1. Cyhoeddwyd argymhellion dros dro mewn perthynas ag etholaethau seneddol (a'r Cynulliad) yng Nghymru ar 5 Ionawr 2004. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd argymhellion dros dro ar gyfer Rhanbarthau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnig 40 o etholaethau, sef yr un nifer ag ar hyn o bryd. Yn sgil newidiadau arfaethedig mewn rhai etholaethau, argymhellodd y Comisiwn gynnwys etholaethau arfaethedig Conwy ac Arfon yn Rhanbarth Gogledd Cymru y Cynulliad, ac etholaethau arfaethedig Dwyfor Meirionnydd ac Montgomeryshire yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. Fe wnaethant gynnig hefyd bod y ffin rhwng rhanbarth etholiadol De Orllewin Cymru a rhanbarth etholiadol Canol De Cymru yn cael ei newid i gyfateb i'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng etholaethau Bridgend ac Vale of Glamorgan.

2. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r argymhellion dros dro, cyhoeddodd y Comisiwn argymhellion terfynol ar gyfer Dyfed (yn cynnwys Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Llanelli CC ac Preseli Pembrokeshire CC) a Phowys (yn cynnwys etholaeth sirol Brecon and Radnorshire CC, ac Montgomeryshire CC) ar 25 Awst 2004. Penderfynodd y Comisiwn gynnal ymchwiliadau cyhoeddus mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd, Gwent a Morgannwg Ganol, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg. Ar ôl ystyried y materion a godwyd yn yr ymchwiliadau ac argymhellion y Comisiynydd Cynorthwyol, gwnaeth y Comisiwn argymhellion diwygiedig ar gyfer Clwyd a Gwent/Morgannwg Ganol ac argymhellion terfynol ar gyfer Gwynedd (yn cynnwys Arfon CC, Dwyfor Meirionnydd CC ac Ynys Môn CC) ar 3 Tachwedd 2004. Cyhoeddwyd argymhellion terfynol ar gyfer De Morgannwg (yn cynnwys Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, ac Vale of Glamorgan CC) a Gorllewin Morgannwg (yn cynnwys Aberavon CC, Gower CC, Neath CC, Swansea East BC ac Swansea West BC) ar 10 Tachwedd 2004.

3. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â Chlwyd a Gwent/Morgannwg Ganol, cadarnhaodd y Comisiwn ei argymhellion diwygiedig mewn perthynas â'r ardaloedd hyn. Roedd yr argymhellion diwygiedig yn golygu

newid i enw un etholaeth (Conwy i Aberconwy) a mân newid rhwng dwy etholaeth yn yr un Rhanbarth o'r Cynulliad (Caerphilly ac Islwyn); ni wnaeth y newidiadau hyn felly newid nifer yr etholwyr yn Rhanbarthau'r Cynulliad a argymhellwyd dros dro.

4. Codwyd mater Rhanbarthau'r Cynulliad mewn cynrychiolaethau ac yn yr ymchwiliad lleol mewn perthynas ag ardaloedd Clwyd a Gwynedd. Yn benodol, gwnaethpwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig i gynnwys etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. Adroddodd y Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad bod y gwrthwynebwyr i gynnig y Comisiwn wedi awgrymu na ddylai'r etholaeth arfaethedig gael ei chynnwys yn Rhanbarth Gogledd Cymru y Cynulliad. Roedd y Comisiynydd Cynorthwyol o'r farn, fodd bynnag, bod buddiannau'n gyffredin rhwng yr etholaeth arfaethedig a rhannau eraill o Ranbarth arfaethedig Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad, a bod cynnig dros dro'r Comisiwn yn rhoi paredd gwell rhwng etholaethau Rhanbarthau'r Cynulliad. Fe wnaeth y Comisiynydd Cynorthwyol felly gefnogi argymhellion dros dro'r Comisiwn mewn perthynas â dyrannu etholaethau i Ranbarth Etholiadol Gogledd Cymru a Rhanbarth Etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Argymhellion terfynol

5. Ar ôl gwneud argymhellion terfynol ar gyfer holl etholaethau Cymru ac ystyried y cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â Rhanbarthau'r Cynulliad a'r barnau a fynegwyd gan y Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad ar Glwyd a Gwynedd, mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio gwneud unrhyw newidiadau pellach, ac, yn unol â hynny, mae'n cadarnhau ei argymhellion diwygiedig fel ei argymhellion terfynol. Ni fydd cynrychiolaethau pellach yn cael eu hystyried.

6. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer Rhanbarthau'r Cynulliad, a fydd yn cael eu cynnwys yn ei adroddiad i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwedd yr adolygiad cyffredinol, ac a ddangosir ar y map atodedig, ar gyfer pum etholaeth y Cynulliad fel a ganlyn (dengys nifer etholwyr 2003 mewn cromfachau):

Gogledd Cymru (459,718): Aberconwy CC, Alyn and Deeside CC, Arfon CC, Clwyd South CC, Clwyd West CC, Delyn CC, Vale of Clwyd CC, Wrexham CC, Ynys Môn CC.

Canolbarth a Gorllewin Cymru (426,058): Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

De Orllewin Cymru (395,717): Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.

Canol De Cymru (480,831): Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, Cynon Valley CC, Pontypridd CC, Rhondda CC, Vale of Glamorgan CC.

Dwyrain De Cymru (470,878): Blaenau Gwent CC, Caerphilly CC, Islwyn CC, Merthyr Tydfil and Rhymney CC, Monmouth CC, Newport East CC, Newport West CC, Torfaen CC.

Gweithredu'r argymhellion

7. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'i adroddiad ar yr adolygiad cyffredinol o Gymru gyfan i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl 16 Rhagfyr 2002 a chyn 17 Rhagfyr 2006. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i roi adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd, ynghyd â drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n rhoi grym i argymhellion y Comisiwn gyda newidiadau neu heb newidiadau. Os cynigir newidiadau, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd roi datganiad o resymau am y newidiadau. Cyflwynir y drafft o'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ddau Dŷ'r Senedd i'w cymeradwyo ac, wedi iddo gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, ni ellir codi amheuaeth yn ei gylch mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Map amlinellol

8. Dangosir amlinelliad o Ranbarthau'r Cynulliad ar y map sy'n rhan o'r ddogfen hon (sylwer ar y rhybudd hawlfraint isod sy'n ymwneud â'r map). Mae etholaethau'r Cynulliad ar y map wedi'u rhifo, ac mae rhestr o'r rhifau hyn ac enwau etholaethau'r Cynulliad ar ddiwedd y ddogfen hon.

Hawlfraint y Goron

9. Mae'r map amlinellol sy'n rhan o'r ddogfen hon wedi'i seilio ar ddata'r Arolwg Ordnans ac mae Hawlfraint y Goron arno. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno atgynhyrchu'r map amlinellol gysylltu'n gyntaf â'r Llinell Gymorth Cwsmeriaid yn Arolwg Ordnans, Romsey Road, Southampton SO16 4GU (ffôn 08456 050504)

Ymholiadau

10. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE.

Rhif Ffôn 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250
E-bost comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ornans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Comiswn Ffiniau i Gymru, GD272221, 2003

1	Aberavon
2	Aberconwy
3	Alyn and Deeside
4	Arfon
5	Blaenau Gwent
6	Brecon and Radnorshire
7	Bridgend
8	Caerphilly
9	Cardiff Central
10	Cardiff North
11	Cardiff South and Penarth
12	Cardiff West
13	Carmarthen East and Dinefwr
14	Carmarthen West and South Pembrokeshire
15	Ceredigion
16	Clwyd South
17	Clwyd West
18	Cynon Valley
19	Delyn
20	Dwyfor Meirionnydd
21	Gower
22	Islwyn
23	Llanelli
24	Merthyr Tydfil and Rhymney
25	Monmouth
26	Montgomeryshire
27	Neath
28	Newport East
29	Newport West
30	Ogmore
31	Pontypridd
32	Preseli Pembrokeshire
33	Rhondda
34	Swansea East
35	Swansea West
36	Torfaen
37	Vale of Clwyd
38	Vale of Glamorgan
39	Wrexham
40	Ynys Môn